# CADWYN BRO

*Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych*
*Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago*
*Ffôn-* 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com

*Tachwedd 2018* *Rhif 087*

Ymhlith y pentwr o hen daflenni yn y cwpwrdd mae copi o hen bamffled prin iawn a gyhoeddwyd yn Ninbych yn 1914-5. Ar ei chlawr mae'r geiriau hyn: 'Blwyddyn Newydd Dda i Chwi, a Buddugoliaeth Fuan'. Ar y dudalen gyntaf, ceir llythyr gan M.S. Gee yn gofidio fod y geiriau i hen alawon Cymreig yn prysur fynd yn angof. I ateb y galw, mae wedi llunio pamffled at ddefnydd milwyr Cymru, 'gan obeithio y cewch lawer o funydau difyr yn eu canu wrth y pentan, neu yn y *trenches,* pan fydd y gelyn allan o'r clyw'. Yn y tudalennau sy'n dilyn ceir yr amrywiaeth ryfeddaf o ganeuon gwladgarol Cymreig, emynau, penillion gwrth-Almaenig a phenillion gwreiddiol o blaid y rhyfel cyfiawn.

Mae'r bamffled fach yn codi cymaint o gwestiynau. Oedd cyhoeddwr y bamffled yn ymwybodol o gwbl o amodau'r milwyr yng ngogledd Ffrainc? A fu rhai'n closio at ei gilydd a chanu 'Hen Wlad fy Nhadau' a 'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg' yng nghanol y brwydro? Beth bynnag am hynny, mae pethau fel y

pamffled fach hon i'w trysori: maen nhw'n ein hatgoffa ni mai straeon pobl fel ni ydyn ni'n ymhel â nhw wrth gofio diwedd y rhyfel yn 1918. Ie, cofio diwedd y rhyfel ydym fis Tachwedd eleni – diwedd pedair blynedd hir o ymladd ar sawl ffrynt rhwng yr ymerodraethau. Wrth gofio'r gorffennol, rydym hefyd yn naturiol yn troi i feddwl am y rheiny sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog heddiw a'u teuluoedd, a'r pwysau unigryw sydd ynghlwm â'r swydd. Cofiwn hefyd y rheiny sy'n dioddef heddiw o ganlyniad i ryfel yn eu gwlad, yn arbennig bobl Yemen.

**DIGWYDDIADUR**

**Oedfa i'r Fro** yn Capel Trefnant, Tachwedd 4ydd, am 10 y.b. Croeso cynnes i bawb o bob oed!

**Astudiaeth Feiblaidd y Fro**
Cynhelir astudiaeth Feiblaidd bob pythefnos ar ddydd Mercher am 1.30 y.p. yn Festri Trefnant. Byddwn yn cwrdd y mis hwn ar y 7fed a'r 21ain. Croeso cynnes i bawb!

**Cinio'r Fro**
Cynhelir y cinio yn y Capel Mawr ar ddydd Gwener, Tachwedd 9fed, am 12.00.

**Clwb Ieuenctid** ar y 16eg a'r 30ain o Dachwedd yn Festri Llandyrnog rhwng 7-8.30 y.h.
Croeso cynnes i bawb - am fwy o wybodaeth cysylltwch ac Andras.

**CYNGERDD** gan **CÔR Y PORTHMYN**
Nos Sul, Tachwedd 4ydd. am 7.30yh.
Mynediad: £6 i oedolion
Elw tuag at yr adeiladau
Tocynnau ar gael gan aelodau Pwyllgor yr Adeiladau neu yn Siop Clwyd.
Maes parcio wrth Ysgol Twm o'r Nant ar agor.

**Arddangosfa Adnoddau Cyngor Ysgolion Sul** – Capel Trefnant, nos Fercher 14eg Tachwedd.

# Ffair Nadolig
## Anrhegion, Crefftau a bwyd
### Sadwrn 17eg o Dachwedd 2018
### 10:30yb- 1:30yp
### Capel Waengoleugoed, Waen, Llanelwy

Cardiau ac Addurniadau Nadolig,
Crefftau Nadoligaidd,
Cacennau, Bwyd Nadolig (yn barod ar gyfer y rhewgell) Siytni /Jam,
Torchau Nadolig a Choed Nadolig i'w archebu
Anrhegion newydd o bob math i blant ac oedolion
Sion Corn gyda anrheg i bob plentyn
Stondinau amrywiol eraill

**Mynediad £1 a chyfle i ennill Hamper Nadolig**
**Dim costau— pob ceiniog yn cefnogi St Cyndeyrn a Gofal Dydd y Waen a Cynllun Ymweld Helpu'n Gilydd**

## BODFARI

**Dydd Sul, Tachwedd 4**
10.00 – Parch. Bernard Thomas
**Dydd Sul, Tachwedd 11**
9.45 – Parch. Andras Iago
**Dydd Llun, Tachwedd 12**
Cinio Cynnil yn y Festri 12.00 – 1.00
Croeso cynnes i bawb

Llongyfarchiadau i Clwyd Parry ar ddathlu penblwydd arbennig y mis yma.
Hefyd ein cofion at bawb nad ydynt yn mwynhau iechyd gorau ar hyn o bryd.

## BRWCWS

**Dydd Sul, Tachwedd 4ydd**
Oedfa'r Fro - Capel Trefnant am 10.00
**Dydd Sul, Tachwedd 11eg**
Ysgol Sul am 10.00
Parch. W H Pritchard am 2.00
**Dydd Sul, Tachwedd 18ed**
Oedfa'r Teulu a Chymun - Parch. Andras Iago am 2.00.
**Nos Fercher, Tachwedd 21ain**
'Er lles Bywyd Gwyllt a Phobl' noson gyda Iwan Edwards, Pont y Tŵr, yn Festri'r Fron am 7yh. Cymdeithas y Chwiorydd ar y cyd â Cymdeithas Ddiwylliadol y Fron a'r Brwcws.
**Dydd Sul, Tachwedd 25ain**
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Bernard Thomas am 2.00
**Ysgol Sul** - Croeso mawr i Karen Jones a'r plant Arthur, Flora a Henry atom.

## CAPEL Y DYFFRYN

**Dydd Sul Tachwedd 4ydd am 10 yb**
Oedfa'r Fro yn Nhrefnant
**Dydd Sul Tachwedd 11eg am 10.45yb**
Sul y Cofio yn Eglwys Llandyrnog
**NOS LUN Tachwedd 12fed am 7 yh**
Y Gymdeithas - Gyrfa Chwilod a
Stondin y Goeden Nadolig
**Dydd Sul Tachwedd 18fed am 9.45 yb**
Parch Nesta Davies
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a darllen - Iestyn
Organ - Anwen
Blodau - Menna Ellis
**NOS LUN Tachwedd 19eg am 7 yh**
Y Gymdeithas - "Gwylltiroedd" gydag
Aneurin Phillips
**Dydd Sul Tachwedd 25ain am 11 yb**
Parch Huw Dylan Jones
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb
Emyn a Darllen - Hywel
Emyn a darllen Plant - Ysgubor Efa
Organ - Glenys
Blodau - Mary

## GELLIFOR

**Dydd Sul, Tachwedd 4ydd**
10.00 – Oedfa'r Fro – Trefnant
**Dydd Sul, Tachwedd 11**
Gweler Cadwyn Bro
**Dydd Sul, Tachwedd 18**
11.00 - Parch Nesta Davies
Llywydd - Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Tirion
Offeryn – Alaw
Blodau – Marian
**Dydd Sul, Tachwedd 25**
9.45 - Parch Huw Dylan Jones
Llywydd – Gareth
Offeryn – Richard
Blodau - Marian

## Y FRON

**Sylwch** fod yr oedfa foreol ar Dachwedd 11eg am 9.30am yn Y Capel Mawr oherwydd ei bod hi'n Sul y Cofio.

**Dydd Sul, Tachwedd 4ydd**
10am - Oedfa'r Fro yn Nhrefnant dan arweiniad y Gweinidog
**Dydd Sul, Tachwedd 11eg**
**9.30am – Y Capel Mawr - Y Parch. W.H. Pritchard, Bae Trearddur
5.30pm – Y Fron - Y Parch. W.H.Pritchard, Bae Trearddur
**Dydd Sul, Tachwedd 18fed**
**11am – Y Capel Mawr - Y Bugail – gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon
5.30pm – Y Fron - Y Bugail
**Dydd Sul, Tachwedd 25ain**
10am– Y Fron – Y Parch. Bernard Thomas, Trefnant
5.30pm – Y Capel Mawr– Y Parch. Bernard Thomas, Trefnant

**Organyddion** – Eiri Jones, Iona Edwards
**Casglyddion** – Aelwyn Lloyd, John Geraint Jones
**Blodau** – yn gyfrifol Gwenda Owens
Tachwedd 11 – Gwenda Owens
Tachwedd 19 – Dilys Davies
Tachwedd 25 –
**Croesawu –**
Tachwedd 11 - Gaynor Prew
Tachwedd 19 – Richard Snelson
Tachwedd 25 – ErfylWilliams

Nos Sul, Tachwedd 4ydd. am 7.30yh. **CYNGERDD –** gan **CÔR Y PORTHMYN**

**Cymdeithas Ddiwylliadol a Chymdeithas y Chwiorydd y Fron a'r Brwcws**
Tachwedd 21ain.(Nos Fercher) 'Er llês bywyd gwyllt a phobl' gan Iwan Edwards, Pont y Tŵr ('Garddio a mwy' S4C).

Mi fyddwn yn falch o dderbyn Bocsus Esgidiau, (apel Nadolig T4u) erbyn dydd Sul Tachwedd 18fed,. Diolch I chi am eich cefnogaeth at yr apel yma.

## Y CAPEL MAWR A SEION

*****DALIER SYLW*****

Mae trefniadau oedfaon mis Tachwedd yn anghywir yn y Blwyddlyfr.
Dyma'r drefn sydd yn gywir.

**Sylwch** fod yr oedfa foreol ar Dachwedd 11eg am 9.30am yn Y Capel Mawr oherwydd ei bod hi'n Sul y Cofio.

Hefyd cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn Y Capel Mawr neu'r Fron bydd yr oedfa am 11am.

**Dydd Sul, Tachwedd 4ydd**

10am - Oedfa'r Fro yn Nhrefnant dan arweiniad y Gweinidog

**Dydd Sul, Tachwedd 11eg**

**9.30am – Y Capel Mawr - Y Parch. W.H. Pritchard, Bae Trearddur
5.30pm – Y Fron - Y Parch. W.H.Pritchard, Bae Trearddur

**Dydd Llun, Tachwedd 12fed**

Cyfarfod Gweddi – 1.30pm

**Dydd Sul, Tachwedd 18fed**

**11am – Y Capel Mawr - Y Bugail – gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon
5.30pm – Y Fron - Y Bugail

**Dydd Mawrth, Tachwedd 20fed**

Yr Aelwyd am 1.30pm yng nghwmni Mr Hari Huws, Y Rhyl.
Ei destun fydd "Licyris Olsorts".

**Dydd Sul, Tachwedd 25ain**

10am– Y Fron – Y Parch. Bernard Thomas, Trefnant
5.30pm – Y Capel Mawr– Y Parch. Bernard Thomas, Trefnant

**Llywydd Y Mis:** – Mrs Cheryl Williams

**Casglyddion:-**
Mrs Carys Jones
Mrs Mair Les Jones

**Wrth y Drws:-**
Mrs Carys Jones
Mrs Mair Les Jones

**Organydd/ Cyfeilydd:-**
Tachwedd 11eg – Mrs Catrin Warren
Tachwedd 18fed– Mrs Dorothy Rogers
Tachwedd 25ain - Mrs Catrin Warren

**Blodau**
Tachwedd 11eg - I'w drefnu
Tachwedd 18fed – Mrs Gwyneth Kensler

**CASGLIAD AT YR ADEILADAU** - Gyda'r rhifyn hwn dylech dderbyn amlen ar gyfer cyflwyno'ch cyfraniad at Y Casgliad at yr Adeiladau.
Gwerthfawrogwn rhag blaen eich haelioni.

**Aelwyd Capel Mawr**

Mair Jones ddechreuodd cyfarfod mis Hydref drwy ddarllen cerdd T. Rowland Hughes i "Harddwch". Croesawyd bawb gan Helena Williams, a braf oedd gweld Eirwen Evans yn ol wedi gwaeledd. Ein siaradwraig wadd oedd Mrs Cath Williams Llansannan, a chroesawyd hithau gan y llywydd.

Roedd wedi dod i roi sgwrs am rai o deithiau beic oedd hi a'i gwr Alwyn wedi wneud. Roedd ganddi luniau arbennig o dda wedi eu tynnu gan Alwyn, a chawsom brynhawn difyr iawn yn mynd gyda hwy ar deithiau o gwmpas Llyn Tegid, Llyn Efyrnwy a Llyn Trawsfynydd. Cawsom hanes diddorol llawer o lefydd ger y llynnoedd hyn, fel Eglwys Sant Beuno, giat mynwent Llanuwchllyn, ei atgofion o Ganolfan yr Urdd yn Glanllyn, hanes yr hen bentref yn Efyrnwy a llawer o lefydd o ddiddordeb ger Llyn Trawsfynydd.

Difyr iawn hefyd oedd hanes y daith hollol wahanol i'r Iseldiroedd lle mae mwy o feics na phobl !

Diolchwyd i Cath gan Olwen Roberts, ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned. Mae mor braf cael eistedd a chymdeithasu ar ol y cyfarfodydd hyn. Buom yn meddwl am y rhai sydd dim yn dda ar hyn o bryd, a dymunwn y gorau iddynt.

**Mis Tachwedd**

Cyfarfod Gweddi ar y 12fed am 1.30

Yr Aelwyd ar yr 20 fed am 1.30 pryd y bydd Hari Huws Rhyl, a'i bwnc "Licyris Olsorts" yn siarad am amrywiol bethau.

Croeso cynnes i bawb ddod i'r cyfarfodydd hyn

## LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN `

**Dydd Sul, Tachwedd 4ydd**
10.00 - Oedfa'r Fro yng Nghapel Trefnant

**Dydd Sul, Tachwedd 4ydd**
4.00 - Pentre - Cymdeithasu gyda phaned a chacen (manylion isod)

**Dydd Sul, Tachwedd 11eg**
11.00 - Pentre - Parch Ifor Jones

**Dydd Sul, Tachwedd 18fed**
9.45 – Prion - Mr Arwel Roberts

**Dydd Sul, Tachwedd 25ain**
9.45 - Pentre - Parch John Owen

**CYMDEITHAS** - Cawsom gychwyn da i'r tymor yn ein noson agoriadol, mwynhawyd lobsgows, pwdin a phaned - diolch i'r merched am baratoi'r bwyd bendigedig fel arfer, a diolch hefyd i bawb fu'n helpu. Bu i bawb fwynhau'r adloniant amrywiol a phleserus iawn yng nghwmni Sion, Cerys a Catherin a'u mam Llinos, Pwllglas.

**COFION** at Mr Dafydd Roberts, Cwm Parc sydd adre ar ôl bod yn Ysbyty Glan Clwyd a'r Inffirmari- rydym yn meddwl amdano. Hefyd am Mrs Glenys Jones, Coed y Fron gynt sydd yn yr ysbyty.

**YSGOL SUL** - GWASANAETH DIOLCHGARWCH Y PLANT A'R BOBL IFANC
Cawsom gyflwyniad bywiog a thrawiadol ar y testun "Toilet Twinning" yn ystod y Gwasanaeth Diolchgarwch. Hoffai'r plant a'r bobl ifanc ddiolch o galon am y gefnogaeth hael. Mae'r ymgyrch wedi codi cyfanswm o £457.00 sy'n golygu medrwn brynu rhes o doiledau mewn ysgol a phedwar toiled unigol i bedwar teulu yng ngwlad Burundi, Affrica. 'Rydym yn edrych ymlaen i dderbyn y tystysgrifau a'r lluniau o'r toiledau newydd. Bydd y toiledau newydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau ein ffrindiau yn Affrica. Yn ogystal, aethpwyd â llond bŵt car o nwyddau iechydol i'r banc bwyd lleol yng Nghapel Mawr a'r gyfer cefnogi'r ymgyrch "Period Poverty". Diolch i bawb a gyfranodd i'r ddau ymgyrch.

**Ymweliad â Phlas Llanrhaeadr a Phlas Gwyn, Llanychan.**
Yn dilyn sgwrs ymwybyddiaeth "Dementia Friends" gan Nyrs Gwenno Davies yn ddiweddar, aeth criw'r ysgol sul i ymweld â Phlas Llanrhaeadr a Phlas Gwyn, Llanychan un bore sul. Yno cafodd y plant, bobl ifanc a'r rhieni gyfle i sgwrsio ac i adlonni'r preswylwyr gyda eitemau diolchgarwch. Cawsant groeso gwresog gan y preswylwyr a'r staff – a gwahoddiad i ymweld eto'n fuan.

**YSGOL SUL a'r GYMDEITHAS** - Pnawn Sul, 4ydd Tachwedd am 4.00yp, sgwrs gan Catrin Cae'r Felin ar ei ymweliad a'i phrofiad yn America. Paned a chacen, a thân gwyllt i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

## GLYN

**Dydd Sul , Tachwedd 25ain**

2.00 - Cynhelir oedfa gyda'r Parch. Andras Iago.

Dymuniadau gorau i Ynyr, Pen Bryn Llan ar ei daith i Patagonia efo'r Urdd, edrychwn ymlaen i glywed dy hanes.

## TREFNANT

**Llywydd y Mis** : EIFION WILLIAMS

**Dydd Sul Tachwedd 4ydd**

10.00 : Oedfa'r Fro yn Hydref
Blodau : Gwyneth Evans

**Dydd Sul Tachwedd 11eg**

10.00 : Mr Dennis Davies 11.15 YSO
3.00 : Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Eleri Jones

**Dydd Sul Tachwedd 18fed**

9.45 : Bugail 11.00 YSO
3.30 : Bugail
Blodau : Eleri Jones

**Dydd Sul Tachwedd 25ain**

10.00 : Parch. Glyn Thomas gyda phaned i ddilyn
3.00 : Gwasanaeth gweddi a Mawl
Blodau :

Cynhelir Ysgol Sul y Plant yn ystod gwasanaeth y bore dan ofal Angharad Ellis ac Anwen Evans.

**CYFARFOD GWEITHGAREDDAU** Mae'r cyfarfodydd prynhawniau Llun yn parhau ar waith y tymor ar brynhawniau Llun yn y festri. Yn ogystal a chyfle i addoli, cymdeithasu, sgwrsio a mwynhau paned, maent yn brysur ar hyn o bryd yn creu ar gyfer eu Ffair Nadolig blynyddol fydd i'w chynnal eleni fore Sadwrn , Rhagfyr 1af rhwng 10.30 a 12.00 pm yn Neuadd y Pentref. Maent hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer llenwi Bocsys Nadolig i blant mewn angen a byddant yn falch iawn i dderbyn rhoddion tuag at y gwaith hwn. Mae'n braf fod y bwrdd yn llawn unwaith eto a'r bwrlwm a'r cymdeithasu mor fywiog ag erioed! Mae croeso o hyd, wrth gwrs, i chi droi i fewn i fwynhau'r cwmni.

**CYFARCHION** arbennig i Marian Roberts sydd yn treulio amser erbyn hyn yn Dolwen yn Ninbych - mae'n siwr fod y wen barod a'r sgwrs lawen yn gymorth iddi ymgartrefu'n hapus yno - ein cofion cynnes atoch Marian. Yr un cyfarchion at aelodau eraill sy'n gwella - braf clywed fod Glynwen adre ond angen cymryd gofal a bod Clen a Kath yn ol yn yr oedfaon erbyn hyn.

**GWYL DDIOLCHGARWCH** Cynhaliwyd Gwyl Iwyddiannus ar nosweithiau Mawrth a Mercher, Hydref 9fed a 10fed - diolch i bawb fu'n cymryd rhan mewn unrhyw fodd. Mae'r casgliad tuag at Gymorth Cristnogol wedi cyrraedd £520 erbyn hyn – diolch eto.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL** ar Nos Wener, Hydref 26ain gyda noson o gemau dan ofal Angharad a Mali Ellis ac yna ar Nos Wener, Tachwedd 23ain bydd Mair Beech Williams yn adrodd ei hanes yn cerdded "Y Moon Walk" yn LLundain a gwneir casgliad arbennig y noson hon ar gyfer Ymchwil Canser y Fron. Llywydd y noson fydd Eirlys Roberts. Croeso cynnes i bawb yn y pentre ymuno yn y gweithgareddau.

**CYDYMDEIMLAD** Estynnir ein cydymdeimlad cywir a Dilys, Anwen a Mair a'u teuluoedd yn eu galar o golli Hywel yn ddiweddar – bydd set wag hebddo yn y Capel.

**Neges Nesta**

Bu'r Timau Agor y Llyfr yn brysur lawn adeg y Diolchgarwch yn cyflwyno Stori'r Creu yn Ysgol Twm o'r Nant a Thremeirchion. Pleser o'r mwyaf oedd dechrau yn ysgol Pant Pastynnog a chroesawu Carole Collins , Elsbeth Jones ac Olwen Jones atom. Rhoddwyd cyfraniadau at y Banc Bwyd mewn sawl ysgol a chapel. Bydd Casgliad yn Siop Tesco Prestatyn o ddydd Iau 29ain o Dachwedd hyd ddydd Sadwrn 1af o Ragfyr. Os oes gennych amser i wirfoddoli cysylltwch!

**Cymorth Cristnogol**

Cafwyd noson ddifyr yn Eglwys St Thomas ar y 24ain o Hydref yn cefnogi apel argyfwng yr Hydref drwy gael Pwdin a Phaned a chafwyd sgwrs gan y Parch Anna Jane Evans. Cofiwch os rhowch gyfranniad nawr bydd yr Undeb Ewropeaidd yn ychwanegu ato i hwlou anfffodusion Indonesia.
Dyma ni'n nesau at y Nadolig, a llawer o baratoadau at wasanaethau a partion o gwmpas y Fro. Efallai yr hoffech anfon cardiau, fel fi, a chefnogi elusennau wrth wneud hynny. Am y tro cyntaf mae Gofal dydd Waengoleugoed a Helpu'n Gilydd wedi cynhyrchu cardiau. £2:95 ydynt am becyn o ddeg. Mae 7 cynllun gwahanol efo cyfarchiad dwyieithog y tu mewn,a rhoddais ffurflen ichi archebu rhai yn y capeli – mae dewis o Gynllun Mul, Eglwys a Defaid, Robin Goch, Doethion, Stabl, Mair a Joseph neu Ddyn eira. Mae llawer o unigolion o'r fro wedi manteisio ar y gwasanaeth sydd i'w gael yno. Hefyd mae ganddynt Ffair Nadolig ar Dachwedd 17 a llawer o nwyddau Nadoligaidd ar werth. Dewch i'w cefnogi!

Wnaethoch chi hel pethau i lenwi Bocs Esgidiau eleni? Teams for you rydyn yn defnyddio i'w cludo ac os oes angen hetiau/sgarffiau/menyg i'w llenwi cysylltwch - mae gen i rai ar ol Arddangosfa'r Pasg. Gellir mynd a'r Bocsus i 75, Bowen Court, Parc Busnes Llanelwy ddechrau Tachwedd – dewch mewn cysylltiad.
Hefyd mae casgliadau yn dal yn cael i'w gwneud tuag at y Ffoaduriaid – esgidiau gaeafol, wellingtons, blancedi, cotiau cynnes neu bethau sy'n dal dŵr a nwyddau ymolchi a glanhau'r dannedd. Ffoniwch fi i'w nôl.

Cofion
Nesta

Newyddion rhifyn R h a g f y r o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Tachwedd 16.
e-bost : **meinididdos13@gmail.com**
neu: 01745890417